

Foundation Degree Photography



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn cyfuno sgiliau ffotograffig creadigol ag astudiaeth academaidd, gan gynnwys delweddu digidol a phrosiectau a arweinir gan y diwydiant.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych yn greadigol
- ... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn ffotograffiaeth
- ... Ydych o ddifrif am yrfa ym maes ffotograffiaeth

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn wedi ei strwythuro i ddarparu ystod eang o sgiliau ffotograffig, ac ar yr un pryd, datblygu'r sgiliau creadigol a thechnolegol sy'n ofynnol ar gyfer ffotograffydd modern heddiw.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd y cwrs yn atgyfnerthu eich potensial ymarferol drwy wybodaeth gadarn o hanes ffotograffiaeth ac ymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfoes yn y cyfrwng. Mae elfennau cyd-destunol y cwrs hefyd yn eich annog i feddwl yn feirniadol am ffotograffiaeth a'i effaith ar ddiwylliant a chymdeithas.

Darperir y cwrs drwy gyfuniad o weithdai, darlithoedd, tiwtorialau a dysgu yn seiliedig ar waith.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru ar y cwrs hwn, byddwch angen llwyddo mewn tri phwnc TGAU ar radd C neu uwch, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth). Bydd rhaid i chi hefyd fod ag o leiaf un o'r canlynol:

Proffil BTEC Lefel 3 perthnasol gyda Teilyngdod/Teilyngdod
Graddau DD ar Safon Uwch
Graddau DE ar Safon Uwch, gyda gradd C mewn Bagloriaeth Cymru
Mynediad at Addysg Uwch lle rydych wedi cael Diploma gyda 45 'llwyddo'

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y cwrs hwn yn rhoi i chi'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar gyfer gyrfa mewn ffotograffiaeth neu symud ymlaen i'r rhaglen BA Ffotograffiaeth y Diwydiannau Creadigol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd disgwyl i chi brynu camera SLR digidol gyda cherdyn SD o ansawdd da. Drwy gydol y flwyddyn byddwch angen darparu deunyddiau arddangos megis llyfrau braslunio a phortffolios. Byddwch hefyd angen prynu eich printiau eich hun.

Efallai y bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr fynychu cyfweiliad neu glyweliad, cymryd rhan mewn sesiwn weithdy, neu gyflwyno portffolio o waith fel rhan o'r broses ddethol.

Masnachfreintir y cwrs hwn gan Brifysgol De Cymru.

Y cod UCAS yw W640.

Y cod sefydliad yw W01.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Y cod campws yw G.

Camera DSLR, £300+. Gorfodol - N

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

